CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEHEFIN 16, 2015

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth**
**Nos Fawrth, Mehefin 16, 2015 am 7:30 o'r gloch.**

**Presennol** Cynghorwyr: Rhun Prys Jones (Cadeirydd), Huw A. Evans, Mordaf Roberts, Emlyn Roberts, Gerallt Griffith, Llion Rh. Williams a Peredur Jenkins. Hefyd Henry M. Edwards.

**1.Croeso'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau**: Nid oedd ymddiheuriadau.

**3. Datgan diddordeb**.

Roedd Peredur Jenkins, Huw A. Evans ac Emlyn Roberts yn datgan diddordeb ynglŷn â adolygu ysgolion cynradd.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 19, 2015**

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 19, 2015**

Eitem 7.b. Wedi cyfarfod gyda Swyddog o Cyngor Gwynedd a pherchennog Rhiwfelen, bydd bin yn cael ei roi yn Rhiwfelen.

Eitem 8.ch. Mae angen cyfethol aelod newydd yn lle Royston Davies (Ward Machreth).

Yn ôl manylion Cyngor Gwynedd, mae angen 4 Cynghorwr yn Ward Brithdir (3 sydd presennol) ac 8 yn Ward Machreth (yn cynnwys Llanfachreth a Rhydymain - 7 sydd presennol).

Eitem 8.e. Llythyr (28/5/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod sydd ddim angen sefydlu cofrestr o fuddiannau aelodau.

Eitem 10.b. Llythyr (17/3/2015) oddi wrth Grŵp Cynefin yn rhoi gwybod maent yn cynnig rhoi grant o £200 tuag at fainc newydd wrth lwybr cyhoeddus. Mae angen gwneud y gwaith cyn 17 Medi 2015. (Gofynnwyd am £400).

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (91/6/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Cynhadledd Cynghorau Mwy Un Llais Cymru yn Hafod Hendre, Maes Sioe Frenhinol Cymru ar 8 Gorffenna 2015 am 9:30yb. Amgáu mae agenda'r Gynhadledd.

b. Llythyr (9/6/2015) oddi wrth Un Llais Cymru gyda holiadur eisiau gwybod defnydd o TG a'r Rhyngrwyd gan y Cyngor. Rhoddwyd y wybodaeth iddynt.

c. Llythyr (10/6/2015) oddi wrth Adran Addysg, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod y diweddaraf at sefydlu ysgol ddilynol dalgylch Y Gader. Rhoddwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (10/6/2025) oddi wrth Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer Chofrestru - Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd. Oherwydd toriadau gyllideb, mae'r Cyngor yn ail strwythuro'r gwasanaeth cofrestru yn ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn ddyddiol 10:00yb-12:00yp a 2.00yp-4.00yp yn Swyddfa Dolgellau. O Hydref 1, 2015 bydd y gwasanaeth yn y bore yn unig h.y. 10:00yb-12:00yp.

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais NP5/54/343A. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Adeiladu estyniad newydd, addasiadau i'r ysgol, gosod paneli haul ar y to, a chreu trefniadau parcio newydd. Ysgol Gynradd Ieuan Gwynedd, Rhydymain.

**8. Materion Ariannol**

a. Mae Mr John D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, wedi archwilio'r Cyfrifon y Cyngor 2014-2015. Anfonwyd y ffurflen ymlaen i Hacker Young.

Mae Hacker Young, Archwiliwr Allanol, wedi colli'r contract i wneud gwaith o'r fath yn y dyfodol.

b. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mai 2015: £1,134.97.

c. Balans yn y banc ar 29 Mai 2015: £6,686.15.

**9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

a. Yn gyfarfod Her Gwynedd roedd syniad i gael cynghorau cymuned i gyd-weithio, a syniad i'r cynghorau creu incwm.

Oherwydd brwdfrydedd yr aelodau i gynghorau'r ardal (Dinas Mawddwy, Ganllwyd, Llanelltyd, Dolgellau ac Arthog) i gyd weithio penderfynwyd trefnu cyfarfod gyda'r cynghorau i gael eu sylw ar y mater. Bydd y cyfarfod yn Neuadd Bentref Brithdir, ar Medi 25, 2015 am 7.30yh.

b. Ynglŷn ag adolygu ysgolion yr ardal bydd Corff Cysgodol yn cael ei sefydlu a Pennaeth yr ysgolion yn cael ei benodi i drefnu'r ysgolion.

c. Bydd Ffordd Lefel yn agor yn yr Hydref.

**10. Unrhyw fater arall**

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru mae angen tocio coed sydd yn gwyro dros ffordd A494 rhwng Pont Dolfeili a Hywel Dda.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i A.M. Ashton i beintio hysbysfwrdd Llanfachreth gyda staen.

c. Penderfynwyd rhoi gwybod i BT mae rhifau ffôn 01341 440 240 a 01341 440 731 yn gweithio weithiau. Mae 01341 440 228 and 01341 440 272 ddim yn gweithio o gwbl a 01341 440 229 ddim wedi yn gweithio ers chwe mis.

ch. Derbyniwyd cais i drwsio mainc ar ochr ffordd yn Brithdir.

---

Llofnod: Dyddiad: